**Cwestiynau Cyffredin**

Beth yw Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog?

1. O dan Gynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog, mae gweithiwr Prifysgol Bangor yn arwyddo newidiad i'r Cytundeb Cyflogaeth i dderbyn cyflog is – 'cyfnewid cyflog' – yn gyfnewid am daliad am ofal plant a ddarperir gan Feithrinfa Tir Na Nog y Brifysgol.
2. Caiff gwerthoedd y ffioedd meithrin eu tynnu o'ch cyflog gros, cyn tynnu treth ac Yswiriant Gwladol. Dyma sut rydych chi'n gwneud arbedion ar eich ffioedd meithrinfa yn y Brifysgol.

Cymhwystra

1. Mae unrhyw weithiwr llawn amser neu ran amser ym Mhrifysgol Bangor sy'n defnyddio lle llawn amser neu ran amser ym Meithrinfa Tir Na Nog yn gymwys.
2. Cewch ddefnyddio Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog ar gyfer cynifer o blant ag y dymunwch. Os yw'r ddau riant yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol, cewch rannu'r aberth cyflog rhyngoch chi. Fodd bynnag, dylech ystyried y rhaniad er mwyn gwneud yn fawr o'r arbedion treth gan fod mwy o fudd i drethdalwyr y gyfradd uwch.
3. Dim ond yn Nhir Na Nog y cewch chi ddefnyddio Cynllun Aberthu Cyflog y Feithrinfa.
4. Nid yw myfyrwyr yn gymwys i ymuno â Chynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog

A oes unrhyw amgylchiadau lle na allaf ymuno â'r Cynllun?

1. Rhaid i'ch cyflog fod yn fwy na chost eich ffioedd yn y feithrinfa/aberth cyflog arfaethedig.
2. Ni ddylai'r swm a gyfnewidir ostwng eich cyflog i fod yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Cofiwch fod **pob** Cynllun Aberthu Cyflog yr ydych yn rhan ohono'n cael ei ystyried gan gynnwys pensiwn, cynllun beicio, gwyliau blynyddol ac yn y blaen.
3. Polisi'r Brifysgol yw y caiff aelodaeth o'r cynllun aberthu cyflog ddechrau o ail fis eich rhan yn y feithrinfa'n unig. Rhaid talu ffioedd y mis cyntaf trwy drosglwyddiad banc neu daliad cerdyn yn y ganolfan.
4. Mae'n rhaid i chi allu ymrwymo i o leiaf blwyddyn o aelodaeth yng Nghynllun Cyfnewid Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog; gweler 'Pa mor hir mae'n rhaid imi aros yng Nghynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog?'
5. Chewch chi ddim defnyddio cynllun Gofal Plant Di-dreth y llywodraeth os ydych yn defnyddio Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog y Brifysgol, ac felly mae angen ichi ystyried pa gynllun fyddai'n dod â'r budd mwyaf i chi.

Sut mae gwneud cais am Gynllun Cyfnewid Cyflog Meithrinfeydd y Gweithle?

Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog - **Ffurflen Gais**

1. Lawrlwythwch a llenwch y ffurflen uchod a'i dychwelyd i Feithrinfa Tir Na Nog a fydd yn ei rhannu gyda buddion@bangor.ac.uk, cyn y 10fed o'r mis cyn y mis (mae dyddiadau cynharach yn berthnasol fis Rhagfyr/Ebrill) yr ydych am ddechrau defnyddio'r cynllun. Mae hynny'n cydymffurfio â rheoliadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac mae'n caniatáu amser i sefydlu didyniadau trwy'r gyflogres, hysbysu adran gyfrifon y feithrinfa, dilysu data'r ceisiadau a chyhoeddi llythyr o newid contract.

2. Yna caiff eich cyflog ei ostwng o'r dyddiad y cytunwyd yn ei gylch a bydd y ffioedd meithrin yn cael eu hanfonebu'n uniongyrchol i'r Brifysgol. Byddwch yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig ynghylch y newid contractol i delerau ac amodau eich cyflogaeth.
3. Os ydych ar fin cymryd lle yn y feithrinfa, cofiwch fod rheolaeth y feithrinfa yn mynnu bod yn rhaid talu ffioedd y mis cyntaf yn syth i'r feithrinfa. Felly, dim ond o ddechrau'r ail fis y gall unrhyw drefniant cyfnewid cyflog gychwyn. Mae'n bwysig peidio â gwneud cais am aelodaeth yng Nghynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog yn rhy gynnar.
4. Os oes gennych le mewn meithrinfa'n barod ac yn dymuno ymuno â'r cynllun, yn ogystal â sicrhau bod eich cais yn cyrraedd tîm Buddion Bangor erbyn y 10fed o'r mis (gall dyddiadau cynharach fod yn berthnasol fis Rhagfyr / Ebrill) cyn y dyddiad y mae'r aelodaeth i ddechrau, dylech sicrhau eich bod yn canslo unrhyw Gyfarwyddiadau rydych wedi'u gosod ar gyfer talu ffioedd y Feithrinfa. Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r Feithrinfa.
5. **Bydd gwerth eich didyniad cyfnewid cyflog yn ymddangos ar eich slip cyflog yn y mis y byddwch yn ei nodi fel y dyddiad yr hoffech gymryd rhan yn y cynllun. Bydd y didyniad hwnnw'n talu ffioedd y mis hwnnw h.y. mae didyniad mis Tachwedd yn talu am ffioedd meithrin mis Tachwedd.**

<u>Faint y gallaf ei arbed?</u>

1. Mae Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog yn eich galluogi i arbed treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar ffioedd y feithrinfa. Po uchaf yw eich ffioedd meithrinfa, po fwyaf o arbedion a wnewch.

<u>Hyd yr amser yn y Cynllun</u>

1. Oherwydd amodau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), mae'r cynllun yn dibynnu ar ymrwymiad o aelodaeth am gyfnod o flwyddyn. Unwaith y byddwch wedi dewis ymuno, chewch chi ddim gadael Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog na newid y swm yr ydych wedi cytuno i'w gyfnewid am ffioedd meithrinfa ac eithrio ar y Dyddiad Adnewyddu Blynyddol fis Medi **oni fydd** eich plentyn yn gadael y feithrinfa **neu** os oes Newid sylweddol yn eich Ffordd o Fyw bersonol.

2. Y newidiadau derbyniol o ran ffordd o fyw yw:

   - Yr Adnewyddu Blynyddol (1 Medi bob blwyddyn)
   - Priodas neu bartneriaeth sifil
   - Rhoi gwybod am feichiogrwydd neu ddechrau cyfnod o absenoldeb mamolaeth / dychwelyd o absenoldeb o'r fath
   - Genedigaeth neu ar gamau allweddol o fabwysiadu plentyn
   - Newid trefniadau gwarchodaeth ffurfiol
   - Symud tŷ
   - Dechrau/dychwelyd o absenoldeb salwch hirdymor, neu ddechrau derbyn budd-dal anabledd hirdymor
   - Diswyddiad, colli swydd neu newid ym mhatrwm gwaith partner
   - Newid sylweddol mewn oriau (20% neu fwy)
   - Dechrau absenoldeb di-dâl o fwy na 3 mis, neu ddychwelyd o absenoldeb o'r fath (tadolaeth, saib mewn gyrfa, ac yn y blaen)
   - Gostyngiad mewn Cyflog Cyfeiriol o 20% neu fwy (Staff y Brifysgol yn unig)
   - Dechrau secondiad dramor, neu ddychwelyd o secondiad o'r fath
   - Ysgariad/gwahaniad cyfreithiol/diddymu partneriaeth sifil
   - Marwolaeth partner neu ddibynnydd

- Brawd neu chwaer yn dechrau yn y feithrinfa/brawd neu chwaer yn dechrau yn yr ysgol
- Mae Cyllid y Blynyddoedd Cynnar yn berthnasol
- Materion sy'n ymwneud â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol

3. Byddwch yn atebol am unrhyw wahaniaethau rhwng ffioedd y feithrinfa a'r swm a gyfnewidir drwy'r cynllun a dylid trafod y rheini'n uniongyrchol gyda'r Feithrinfa.

Newid mewn aelodaeth

1. Chewch chi ddim newid y swm yr ydych wedi cytuno i'w gyfnewid ac eithrio ar y Dyddiad Adnewyddu Blynyddol (1 Medi) oni fydd eich plentyn yn gadael y feithrinfa neu os oes Newid sylweddol yn eich Ffordd o Fyw bersonol. Gweler 'Hyd Eich Amser yn y Cynllun' - uchod - am y rhestr o Newidiadau derbyniol o ran Ffordd o Fyw.
2. I wneud cais i newid aelodaeth, llenwch a dychwelwch ffurflen Cais i Adnewyddu/Newid Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog erbyn y 10fed o'r mis (efallai y bydd dyddiad cynharach yn berthnasol fis Rhagfyr / Ebrill) cyn i'r newid ddechrau. Cofiwch, oherwydd bod unrhyw newidiadau, diwygiadau neu amrywiadau mewn aelodaeth yn golygu newid i'r telerau a'r amodau cyflogaeth, fod disgwyl i chi fynd ati i gychwyn y broses o wneud cais i newid yr aelodaeth.
3. Ni chaiff unrhyw newidiadau eu gwneud yn awtomatig, ac ni all rheolwyr y feithrinfa effeithio ar y newidiadau ar eich rhan. Eich cyfrifoldeb chi yw cymryd yr awenau wrth adolygu aelodaeth o'r cynllun, ac wrth ofyn yn ffurfiol ac yn benodol am unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Beth os bydd fy ngofynion gofal plant yn newid?

1. Os bydd Newid sylweddol yn eich Ffordd o Fyw (gweler Hyd Amser yn y Cynllun) a fydd yn arwain at yr angen i newid patrwm eich trefniadau yn y feithrinfa, cewch addasu'r swm y byddwch yn ei gyfnewid am gyflog. Fodd bynnag, os byddwch yn cynyddu a/neu'n lleihau patrwm trefniadau eich plentyn am unrhyw reswm arall, chewch chi ddim newid aelodaeth Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog oherwydd rheoliadau CThEM.
2. Os nad oes gennych chi'r patrwm trefniadau yr ydych yn ei ddymuno ar hyn o bryd ac rydych chi'n dymuno **cynyddu** eich lle dros y flwyddyn nesaf, dylech ystyried cyfnewid cyflog eich ffioedd misol cyfredol a thalu am unrhyw oriau ychwanegol yn y dyfodol trwy drosglwyddiad banc neu daliad cerdyn.
3. Os ydych yn bwriadu **gostwng** yr oriau a ddefnyddiwch yn y feithrinfa dros y flwyddyn nesaf, ystyriwch gyfnewid cyflog ar y swm yr ydych yn disgwyl ei leihau wrtho a thalu ffioedd ychwanegol yn y tymor byr trwy drosglwyddiad banc neu daliad cerdyn
4. Os yw eich gofynion o ran gofal plant yn debygol o newid yn aml, efallai na fydd Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog yn briodol.

A fydd effaith ar fy nghyflog goramser neu unrhyw godiad cyflog os byddaf yn ymuno â'r Cynllun?
Na fydd. Er eich bod yn cytuno i dderbyn tâl gros is trwy ymrwymo i drefniant aberthu cyflog, mae cyfraddau goramser a pholisïau adolygu tâl yn seiliedig ar dâl cyfeiriol* er mwyn peidio â rhoi'r gweithwyr hynny sy'n cymryd rhan yn y cynllun o dan anfantais.

*Tâl cychwynnol' cyn didynnu'r 'aberthau'.

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol at fy mhensiwn

Oherwydd bod uchafswm y Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) y cewch eu talu'n cael ei gyfrifo yn ôl swm y cyflog trethadwy a dderbyniwyd, efallai y bydd hynny'n effeithio ar swm y CGY y cewch eu prynu. Dylech gysylltu â'r Adran Bensiynau os oes angen cyngor arnoch am eich amgylchiadau penodol.

Ystyriaethau Absenoldeb Mamolaeth neu Salwch

Yn ystod Absenoldeb Mamolaeth neu Salwch, lle mae tâl misol yn caniatáu, gall y didyniadau barhau. Os gwneir unrhyw addasiadau i dâl fel rhan o drefniadau tâl Mamolaeth neu Salwch, bydd angen i unigolion adolygu swm y didyniad i sicrhau nad ydynt yn effeithio ar y tâl misol, a mynd â nhw o dan drothwy'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Bydd y Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn i unigolion amrywio unrhyw ddidyniadau lle bo angen er mwyn sicrhau bod gofynion yr isafswm cyflog yn cael eu bodloni. Bydd yn rhaid i'r Unigolyn drefnu ffordd arall o dalu unrhyw ffioedd Meithrin sy'n weddill gyda Tir Na Nog.

A oes angen imi ddatgan fy nghyfranogiad yn y Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog i CThEM?

Nac oes, oherwydd nad yw cost eich gofal plant o dan y cynllun hwn yn rhwymedigaeth o ran y dreth i chi.

A yw aelodaeth o'r Cynllun yn effeithio ar y budd-daliadau a gaf gan y wladwriaeth?

1. Pan fyddwch yn cyfnewid tâl am fudd sydd wedi'i eithrio rhag cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) nid ydych yn talu YG ar y gyfran a gyfnewidiwyd, dim ond ar yr enillion gwirioneddol. Gan fod eich hawl i rai budd-daliadau'n seiliedig ar swm y cyfraniadau Yswiriant Gwladol yr ydych yn eu talu a bod eraill yn seiliedig ar y swm yr ydych yn ei ennill, gallai ymuno â'r cynllun effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau yn awr neu yn y dyfodol, gan gynnwys:

    - Budd-dal Analluogrwydd
    - Pensiwn Gwladol
    - Tâl Mamolaeth Statudol
    - Tâl Tadolaeth a Rennir
    - Tâl Salwch Statudol
    - Credyd Treth Gweithio
    - Credyd Treth Plant
    - Credyd Cynhwysol

2. I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddai trefniant cyfnewid cyflog yn effeithio ar y budd-daliadau hynny, cysylltwch â darparwyr perthnasol y budd-daliadau.

Tynnu'n ôl o'r Cynllun

Lawrlwythwch a llenwch Ffurflen Tynnu Aelodaeth yn Ôl o Gynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog. Mae'n rhaid i chi gadarnhau unrhyw newidiadau gyda meithrinfa Tir Na Nog a dychwelyd y ffurflen i'r Adnoddau Dynol i weithredu unrhyw dynnu'n ôl ar eich trefniant aberthu cyflog – Buddion Bangor cyn y 10fed o'r mis (dyddiadau cynharach fis Rhagfyr / Ebrill) cyn y mis yr ydych yn dymuno tynnu'n ôl o'r Cynllun.

Ble mae cael cyngor annibynnol?

1. Ni all y Brifysgol gynnig cyngor annibynnol. Gall gynnig gwybodaeth am y cynllun yn unig.
2. Efallai y byddwch am ystyried ceisio cyngor annibynnol cyn penderfynu—cewch gyngor o amrywiaeth o ffynonellau, megis eich Undeb, Cyngor ar Bopeth, ymgynghorydd ariannol annibynnol, eich cyfrifydd, neu eich cyfreithiwr/ymgynghorydd cyfreithiol.

Cysylltu am gyngor pellach

1. Os oes gennych gwestiynau pellach am eich cyfranogiad yng Nghynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog, cysylltwch â buddion@bangor.ac.uk

2. Am wybodaeth ynglŷn ag Ariannu'r Blynyddoedd Cynnar yn y feithrinfa neu i newid patrwm eich trefniadau gyda'r feithrinfa/archebu sesiynau ychwanegol, cysylltwch â Meithrinfa Tir Na Nog yn uniongyrchol.

3. Ar gyfer ymholiadau ar faterion sy'n ymwneud â'r dreth, cysylltwch ag adran dreth berthnasol CThEM.

4. Dylid cyfeirio cwestiynau am bensiynau at yr Adran Bensiynau.

Ffurflenni

Darllenwch yr wybodaeth berthnasol am y cynllun cyn lawrlwytho ffurflen gais.

- Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog: Cais
- Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog: Adnewyddu/Cais i Newid
- Cynllun Aberthu Cyflog Meithrinfa Tir Na Nog: Tynnu Aelodaeth yn ôl